General Pharmaceutical Council

Adolygu ffioedd: sut rydym yn pennu ein ffioedd

Mawrth 2021

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n fanwl-gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar y deunydd hwn a rhaid cyfeirio at deitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd trydydd parti, mae'n rhaid ichi gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gael copi o'r ddogfen mewn fformat arall (er enghraifft, mewn teip mwy neu mewn iaith wahanol).

© Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol Mawrth 2021

Cynnwys

Mwy am y CFfC ..... Error! Bookmark not defined.
Trosolwg ..... Error! Bookmark not defined.
Y broses ymgynghori ..... Error! Bookmark not defined.
Rhan 1: Ffioedd gwahaniaethol 12
Rhan 2: Cyflwyno cylch ffioedd sawl-blwyddyn 18
Rhan 3: Codi tâl am achredu ac ail-achredu, ac am gydnabod ac ail-gydnabod 20
Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad 22
Atodiad B: Polisi ffioedd y CFfC 25
Atodiad C: Cyrsiau y codir tâl amdanynt ar gyfer achredu ac ail-achredu 26

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw dydd Mercher 2 Mehefin 2021

Mwy am y CFfC

Pwy ydym ni

Rydym yn rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllfeydd a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Gweithiwn i sicrhau a gwella safonau gofal i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllfeydd.

Beth ydym ni'n wneud

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddynt y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan yn defnyddio gwasanaethau fferyllfeydd.

Gosodwn safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol fferyllfeydd a fferyllfeydd ar gyfer cael bod ac aros ar ein cofrestr.

Gofynnwn i weithwyr proffesiynol fferyllfeydd a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyflawni ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydym yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd mewn fferylliaeth os oes pryderon am weithiwr proffesiynol fferyllfa neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Trwy ein gwaith rydym yn helpu hyrwyddo proffesiynoldeb, cefnogi gwelliannau parhaus a sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

Trosolwg

Fel rhan o'n strategaeth ariannol hirdymor rydym yn edrych ar ffyrdd o:

- leihau ein costau
- dod yn fwy effeithlon
- defnyddio ein gweddillion yn fwy effeithiol, a
- gofalu fod y bobl a'r sefydliadau rydyn ni'n eu rheoleiddio yn talu swm priodol mewn ffioedd.

Rydym yn edrych hefyd a allwn gynhyrchu incwm arall o'n gwaith rheoleiddiol.

Yr ymgynghoriad hwn yw ail gam ein strategaeth ffioedd, ac mae'n rhan o'n strategaeth ariannol ehangach i greu sefydliad sefydlog yn ariannol all ariannu cost rheoleiddio yn effeithiol.

Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod gennym y cyllid i gyflawni ein rôl reoleiddiol a chyflawni ein dyletswyddau statudol. O dan Orchymyn Fferylliaeth 2010 ('y Gorchymyn'), rhoddodd y Senedd yr awdurdod inni:

- godi tâl, a
- newid lefel y ffioedd hynny, a
- gwneud rheolau ar gyfer ein ffioedd, fel bod cost rheoliadau fferyllfeydd yn cael ei thalu gan y bobl a sefydliadau a reoleiddiwn

Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol a pherchnogion fferyllfeydd yn elwa o reoleiddio effeithiol gan ei fod yn rhoi sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd y gallant ymddiried yn y gwasanaethau fferyllol a dderbyniant. Cawn ein hariannu'n bennaf gan y ffioedd a delir gan fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig. Derbyniwn swm bychan o incwm o'r ffioedd a godwn ar ddarparwyr addysg. Er mwyn parhau i fod yn rheoleiddydd effeithiol sy'n ceisio diogelu'r cyhoedd, mae angen inni wneud yn siŵr fod y sawl a reoleiddiwn yn talu'r ffioedd priodol i helpu talu am y rheoleiddio hwnnw.

Pan osodwn ffioedd, ceisiwn fod mor deg ac ymarferol ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys pawb a gofrestrodd yn talu am gost rheoleiddio eu grŵp o bobl a gofrestrodd.

O fis Ionawr i fis Ebrill 2020 cynaliasom ymgynghoriad ar ffioedd ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig. Gofynasom i fudd-ddeiliaid am eu barn ar a ddylid codi ffioedd ar eiddo fferyllol yn ôl faint mae'n costio i reoleiddio pob fferyllfa. Yn ôl ffigyrau 2018/19, nid yw'r ffioedd a dalwyd gan berchnogion fferyllfeydd wedi cyfateb i gostau rheoleiddio fferyllfeydd. Y ffi gofrestru ac adnewyddu a dalwyd gan berchnogion fferyllfeydd oedd £262 ond roedd cost wirioneddol rheoleiddio ar gyfer y grŵp hwn ar gyfer 2018/19 yn £365 y flwyddyn ar gyfer pob fferyllfa (gwahaniaeth o £103).

Ym mis Gorffennaf 2020, cytunodd corff llywodraethol y CFfC i gynyddu ffioedd mynediad ac adnewyddiad blynyddol fferyllfeydd cofrestredig gan £103. Roedd yr ymgynghoriad wedi cynnig y deuai'r cynnydd yn y ffioedd ar waith ym mis Hydref 2020. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau a wynebodd y sector fferyllol yn ystod pandemig coronafeirws, penderfynodd y Cyngor ohirio codi'r ffioedd tan fis Ebrill 2021.

Mewn ymgynghoriadau blaenorol, mae ymatebwyr wedi awgrymu ffyrdd eraill o bennu ffioedd ac wedi awgrymu meysydd eraill lle y gallem godi tâl am waith rheoleiddiol. Yr

awgrym a wnaed amlaf oedd y dylem gyflwyno ‘ffioedd gwahaniaethol’: hynny yw, codi ffïoedd is ar bobl oedd yn debygol o fod yn llai abl i dalu. Dwy enghraifft oedd pobl ar absenoldeb rhieni neu’n gweithio’n rhan-amser.

Penderfynasom archwilio’r materion a godwyd gan ymatebwyr ac fe ddefnyddiasom yr ymgynghoriad ar ffïoedd a gynhaliwyd yn 2020 i ofyn ai’r meysydd canlynol oedd y rhai iawn i’w hystyried:

- Cael dewisiadau ffïoedd mwy hyblyg, megis ffioedd gwahaniaethol ar gyfer pobl ar absenoldeb rhieni.
- Pennu ffïoedd dros gyfnod hirach: er enghraifft, cael ‘cylchoedd ffïoedd sawl-blwyddyn’. (Ystyr hynny yw y byddem yn pennu ffïoedd am y tair blynedd nesaf dyweder)

Cytunodd dros hanner yr ymatebwyr mai’r meysydd a awgrymwyd gennym yw’r rhai cywir, felly buom yn edrych ar ymarferoldeb cyflwyno ffioedd gwahaniaethol a phennu ffïoedd dros gylch sawl-blwyddyn. Buom yn:

- asesu ymdrechion blaenorol i gyflwyno ffioedd gwahaniaethol
- edrych ar waith rheoleiddwyr eraill yn y maes hwn
- dadansoddi sylwadau o ymatebion i ymgynghoriadau blaenorol (dros ac yn erbyn cyflwyno ffioedd gwahaniaethol), a
- chynnal ymchwil pen desg

Nid yw’r ymgynghoriad hwn ond yn edrych ar ffioedd gwahaniaethol ar gyfer unigolion sy’n cofrestru. Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o ffioedd gwahaniaethol ar gyfer adeiladau fferyllol (yn seiliedig ar fath, trosiant, neu fesuriadau maint eraill) mewn ymgynghoriad i’r dyfodol pan edrychwn ar sut rydym yn pennu ffïoedd ar gyfer adeiladau fferyllol.

Mawrth 2021

Wrth ymateb i awgrymiadau y dylem godi tâl am rai mathau o waith rheoleiddiol ychwanegol, rydym wedi cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn gwestiwn am a ddylem archwilio:

- sail adennill 'am gost' ar gyfer achredu ac ail-achredu, neu gydnabod ac ail-gydnabod, pob cwrs hyfforddi

Caiff ein canfyddiadau a'n meddyliau darpariaethol ar ffioedd gwahaniaethol a phennu cylch ffïoedd sawl-blwyddyn eu hesbonio isod.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn am 12 wythnos o 10 Mawrth 2021 tan 2 Mehefin 2021 a byddwn yn gofyn am eich barn ar:

- ein dymuniad i beidio cyflwyno ffioedd gwahaniaethol ar gyfer unigolion sy'n cofrestru, a chadw yn hytrach drefniant un ffi
- ein cynnig i gyflwyno cylch ffïoedd sawl-blwyddyn ar gyfer unigolion sy'n cofrestru
- a ddylem archwilio codi tâl am achredu ac ail-achredu, neu gydnabod ac ail-gydnabod, pob cwrs hyfforddi

Wedi'r ymgynghoriad, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwn ac yn ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Rydym yn disgwyl cael ymgynghoriad yn 2022 ar sut fyddwn yn pennu ffïoedd ar gyfer adeiladau fferyllfeydd cofrestredig.

Y broses ymgynghori

Archwiliodd ein cyngor llywodraethol ystod o wybodaeth a thystiolaeth yn ofalus wrth ystyried yr ymgynghoriad hwn. Rydym eisiau profi ein teithi meddwl, ac mae'r Cyngor eisiau cael y wybodaeth ar gael wrth wneud eu penderfyniadau am bennu a chodi ffïoedd. Byddant yn cyfarfod i drafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ym mis Medi 2021.

Cynhelir yr ymgynghoriad am 12 wythnos a daw i ben ar 2 Mehefin 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn danfon y ddogfen hon at nifer o fudd-ddeiliaid gwahanol, gan gynnwys gweithwyr fferyllol proffesiynol, rhagnodwyr fferyllfeydd, perchnogion fferyllfeydd, cyrff cynrychioli cleifion ac eraill a chanddynt ddiddordeb yn y maes hwn.

Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan bawb y mae ganddynt wybodaeth a barn. Bydd hyn yn ein helpu i brofi ein hagwedd gyffredinol at bennu ffïoedd, yn ogystal â'r cynigion penodol. Bydd yn ein helpu hefyd i asesu effeithiau neu fanteision posib y cynigion.

Wedi'r ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a glywsom.

Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Unwaith y daw'r cyfnod ymgynghori i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwn ac yn ystyried unrhyw newidiadau y mae angen inni eu gwneud.

Bydd ein cyngor llywodraethol yn edrych ar yr adroddiad ar yr ymgynghoriad mewn cyfarfod ym mis Medi 2021. Byddant yn ystyried yr ymatebion wrth wneud eu penderfyniadau am ein strategaeth ffïoedd hirdymor – yn benodol felly, y newidiadau posib i'r fframwaith ar gyfer pennu a chodi ffïoedd.
Byddwn yn cyhoeddi ein dadansoddiad o'r ymatebion ac esboniad o'r penderfyniadau a wnawn ynghyd ag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Byddwch yn gallu gweld y dogfennau hyn ar ein gwefan **www.pharmacyregulation.org**.

Pam rydym yn ymgynghori

Rydym yn gorfod ymgynghori cyn inni osod unrhyw safonau neu ofynion o dan Orchymyn Fferylliaeth 2010. Byddwn hefyd yn ymgynghori pan fo angen i sicrhau ein bod yn cyflawni ein swyddogaethau statudol yn effeithiol a chymesur er mwyn cyflawni ein prif amcan o ddiogelu'r cyhoedd.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio eich ymateb i'n helpu i ddatblygu ein gwaith. Gofynnwn ichi roi rhywfaint o wybodaeth gefndir am eich hunan, ac os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, am eich sefydliad. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i ddadansoddi sut allai ein cynlluniau effeithio grwpiau gwahanol. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol

yn ein holl waith fel rheoleiddydd proffesiynau iechyd, ac i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb. Mae ffurflen monitro cydraddoldeb ar ddiwedd yr arolwg. Nid oes rhaid ichi ei llenwi, ond os gwnewch, bydd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol inni wneud yn siŵr fod hyn yn digwydd.

Sut rydym yn rhannu eich gwybodaeth

Os ydych yn ymateb yn unigolyn preifat, ni fyddwn yn defnyddio eich enw nac yn cyhoeddi eich ymateb unigol. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn rhestru enw eich sefydliad ac efallai y cyhoeddwn eich ymateb yn llawn onid ydych yn dweud wrthym i beidio. Os ydych am i unrhyw ran o'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam rydych yn credu fod y wybodaeth a roesoch yn gyfrinachol.

Efallai y bydd rhaid inni ddatgelu gwybodaeth o dan y cyfreithiau yn ymwneud â mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer). Os gofynnwch inni gadw eich ymateb neu ran ohono yn gyfrinachol, fe gymerwn y cais hwn o ddifrif a cheisio ei barchu. Ond ni allwn warantu y gellir cadw'r cyfrinachedd hwnnw o dan bob amgylchiad.

Os e-bostiwch ymateb i'r ymgynghoriad a'i fod yn cael ei gynnwys mewn ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ni fydd hynny ynddo'i hun yn gyfrwymol ar y CFfC.

Eich hawliau

O dan gyfraith diogelu data, gallwch ofyn am gopi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn neu wybodaeth arall sydd gennym amdanoch, a gallwch ofyn hefyd inni ddileu eich ymateb. Er mwyn cael mwy o wybodaeth am eich hawliau ac â phwy y dylech gysylltu darllenwch ein polisi preifatrwydd ar ein gwefan.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy fynd i **www.pharmacyregulation.org/fees-review** a llenwi'r holiadur yno.

Rydym yn annog ymatebwyr i ddefnyddio'r holiadur ar-lein. Fodd bynnag, os hoffech ddanfon ymateb trwy ebost, ysgrifennwch eich ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad a'i ddanfon atom yn consultations@pharmacyregulation.org.

Fformatau eraill

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gael copi o'r arolwg ymgynghoriad mewn fformat arall (er enghraifft, mewn teip mwy neu mewn iaith wahanol.

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon neu sylwadau am y broses ymgynghori ei hun, danfonwch nhw at: **feedback@pharmacyregulation.org**, neu postiwch nhw atom yn:

Tîm Llywodraethiant
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
London E14 5LQ

Ni ddylech ddanfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.

Manylion ein cynigion a'r cyd-destun

Rhan 1: Ffioedd gwahaniaethol

1.1 Ar hyn o bryd, mae ein grwpiau cofrestru – fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig – oll yn talu un ffi safonol. Hefyd, o dan ein polisi ffïoedd (gweler Atodiad B), mae pob grŵp cofrestru yn talu am gostau rheoleiddio'r grŵp hwnnw. Ni chodir tâl ar unigolion a sefydliadau ar sail eu cyswllt gyda'n gwasanaethau rheoleiddiol. Dywed y polisi hefyd y dylai ein strwythur ffïoedd fod mor syml â phosib. Hyd yn hyn, nid ydym wedi ystyried gallu unigolyn sy'n cofrestru wrth bennu ffïoedd.

1.2 Mae ein Cyngor wedi nodi eisoes nad yw ein rheolau yn darparu ar gyfer unigolion ar gyflogau isel sy'n cofrestru.

1.3 Mewn ymgynghoriadau blaenorol ar y rheolau ar ffïoedd, gofynnodd rhai ymatebwyr am gyflwyno ffïoedd 'gwahaniaethol' ar gyfer rhai grwpiau, gan eu bod yn teimlo fod y model presennol yn annheg. Gwnaethom ymchwil ar y syniad o gael ffioedd gwahaniaethol ar gyfer unigolion. Ar ôl trafod y canfyddiadau, daeth y Cyngor i'r farn ddarpariaethol ei bod yn well – yn gyffredinol ac er mwyn tegwch – cadw'r strwythur ffi safonol ar gyfer unigolion sy'n cofrestru. Yn yr ymgynghoriad hwn byddwn yn esbonio'r rhesymau am y farn hon.

1.4 Yn y gorffennol mae ymatebwyr wedi awgrymu fod y grwpiau canlynol yn cael eu heffeithio gan bwysau ariannol:

- gweithwyr rhan-amser
- pobl ar incymau isel
- pobl ar gyfnod mamolaeth neu absenoldeb rhieni
- unigolion sydd newydd gofrestru

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylem gyflwyno ffioedd gwahaniaethol ar gyfer y grwpiau hyn. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn meddwl fod y syniad o ffioedd gwahaniaethol yn ddryslyd, diangen a chostus ac anodd ei gyflwyno a'i weinyddu. Roedd eraill yn credu fod y model ffi safonol presennol yn fwy priodol.

1.5 Dywed y polisi ffïoedd y dylem ystyried ffactorau economaidd wrth bennu ffïoedd. Gellid ystyried fod hynny'n cynnwys effaith ffïoedd ar grwpiau gwahanol o bobl sy'n cofrestru, sy'n golygu nad yw'n cael gwared â'r posibilrwydd o gael ffïoedd amrywiol o fewn grwpiau cofrestru. Rydym felly wedi asesu a yw'n ymarferol cyflwyno ffioedd gwahaniaethol ar gyfer rhai grwpiau.

1.6 Yn y gorffennol mae ymatebwyr i ymgynghoriadau wedi nodi fod y ffïoedd gwahanol a delir gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn dangos fod gennym ffioedd gwahaniaethol yn barod. Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth yn y ffïoedd a delir gan dechnegwyr fferyllol a

fferyllwyr yn seiliedig ar eu hincwm. Y rheswm yw bod llai o dechnegwyr fferyllol yn mynd trwy'r broses ffitrwydd i arfer (FfiA). Golyga hynny fod technegwyr fferyllol yn costio llai i'w rheoleiddio na fferyllwyr, ac mae'r ffïoedd a dalant yn adlewyrchu hyn. Mae rôl technegwyr fferyllol yn newid a byddwn yn parhau i adolygu'r ffïoedd a dalant fel y bydd ffïoedd technegwyr fferyllol, fel grŵp, yn parhau i adlewyrchu cost eu rheoleiddio.

Canfyddiadau ar ffioedd gwahaniaethol

1.7 Rydym wedi asesu a ddylem gyflwyno ffioedd gwahaniaethol ar gyfer un neu ragor o'r grwpiau a nodwyd uchod. Ein casgliad hyd yn hyn oedd nad yw ffioedd gwahaniaethol yn ymarferol am y rhesymau canlynol:

1.8 Byddai lleihau ffïoedd ar gyfer un neu ragor o'r grwpiau yn golygu codi'r ffïoedd i eraill, gan fod rhaid inni dalu am gost rheoleiddio. Mae hyn yn annheg i bobl nad ydynt yn gymwys i ffioedd gwahaniaethol.

1.9 Byddai cyflwyno ffioedd gwahaniaethol yn cymryd mwy o amser ac adnoddau. Y rheswm am hynny yw oherwydd y byddai angen inni:

- wirio a oedd ceisiadau yn ddilys
- cynnal archwiliadau o hunan-ddatganiadau, a
- chasglu a diweddaru gwybodaeth yn rheolaidd

Byddai hynny'n cynyddu cost rheoleiddio.

1.10 Gwyddom fod rhai cyflogwyr yn talu neu ad-dalu ffïoedd ar ran fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol. Felly, efallai y bydd rhaid i asesu effaith economaidd ffïoedd roi ystyriaeth i allu cyflogwyr yn ogystal ag unigolion i dalu. Byddai hyn yn cymryd mwy o amser ac adnoddau ac yn cynyddu cost rheoleiddio.

1.11 Yn yr adran isod, disgrifiwn yn fanylach rai o'r pethau penodol y buom yn eu hystyried ar gyfer pob un o'r pedwar grŵp y cyfeiriwyd atynt yn 1.4 (uchod).

Gweithwyr rhan-amser

1.12 Mae ymatebwyr i ymgynghoriadau wedi awgrymu y dylai'r ffïoedd cofrestru ac adnewyddu ar gyfer gweithwyr rhan-amser fod yn gymesur â nifer yr oriau maent yn eu gweithio.

1.13 Gwelsom bedwar prif fater ynghylch gweithwyr rhan-amser:

- Mae rhagdybiaeth fod gweithwyr rhan-amser ar incwm is. Dangosodd ymchwil a wnaed yn 2016 fod yna weithwyr rhan-amser ymhob grŵp incwm. Byddai ffioedd gwahaniaethol ar gyfer gweithwyr rhan-amser yn fanteisiol i bob gweithiwr rhan-amser – o'r prif fferyllwyr sy'n ennill fwyaf i'r technegwyr fferyllol sy'n ennill leiaf – a byddai felly'n methu prawf tegwch sylfaenol.
- Mae gweithio'n rhan-amser yn statws 'hunan-ddatganedig', ac o'r herwydd byddai angen inni archwilio datganiadau yn rheolaidd i wneud yn siwr nad oedd statws person a gofrestrodd wedi newid. Byddai hyn yn cymryd mwy o adnoddau a chostau fyddai'n gorfod cael eu talu gan bobl

nad oeddent yn talu ffioedd gwahaniaethol.

- Mae statws rhan-amser yn anodd ei brofi gan y gall yr oriau y mae rhywun yn eu gweithio a'u horiau a gontractiwyd fod yn wahanol.
- Nid yw cost rheoleiddio yn newid waeth faint o oriau y mae pobl yn eu gweithio – nid yw'n gost 'ran-amser'.

Pobl ar incymau isel

1.14 Gwyddom fod y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) a'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) yn codi ffïoedd gwahanol yn seiliedig ar incwm. Mae'r GMC yn cynnig gostyngiad o 50% ar ffïoedd i bobl yn ennill llai na £32,000 y flwyddyn. Mae'r GOC yn cynnig ffi ostyngol ar gyfer pobl sy'n cofrestru sy'n ennill llai na £12,000 y flwyddyn.

1.15 Fodd bynnag, byddai'n anodd pennu ffi briodol ar gyfer pobl ar incwm isel sy'n cofrestru â'r CFfC. Byddai'n hawdd edrych ar raddfeydd cyflogau y GIG ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn gweithio mewn ysbytai. Ond mae'n anoddach cael gwybodaeth am gyflogau mewn fferyllfeydd cymunedol, ac ni chyhoeddwyd cymaint â hynny o ddata y gallem ei ddefnyddio i wirio'r hyn a ddywedir wrthym. Mae'n rhesymol rhagdybio fod lefelau cyflogau yn amrywio mwy mewn fferyllfeydd cymunedol.

1.16 Arferai Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain ddefnyddio cynllun ffïoedd incwm isel, gyda throthwy cyflog ar gyfer fferyllwyr o £16,500. Aeth y CFfC ati'n ddiweddarach i archwilio sut weithiodd y cynllun ar lawr gwlad, a gwelsant nad oedd tua 50% o'r ceisiadau a archwiliwyd yn rhai dilys.

1.17 Fel gwaith rhan-amser, mae bod ar incwm isel yn statws 'hunan-ddatganedig', a'r un yw'r problemau gyda gwirio'r statws hwnnw. Byddai cynllun sy'n deg i bawb sy'n cofrestru yn golygu fod rhaid inni archwilio hunan-ddatganiadau a chasglu a diweddaru gwybodaeth yn rheolaidd. Byddai hyn yn cynyddu cost rheoleiddio.

Pobl ar gyfnod mamolaeth neu absenoldeb rhieni

1.18 Mewn ymgynghoriadau ffïoedd diweddar, mae ymatebwyr wedi awgrymu y gallai pobl ar absenoldeb mamolaeth neu rieni ei chael yn anoddach rheoli cynnydd mewn ffïoedd gan fod eu hincwm yn is.

1.19 Cyfnod mamolaeth statudol yw 52 wythnos. Rhaid i bob menyw gymryd o leiaf 2 wythnos o'r gwaith ar ôl geni ond gallant ddewis faint o gyfnod mamolaeth maen nhw am ei gymryd, hyd at yr uchafswm. Mae gan rai pobl hawl i gymryd peth o'r amser yn absenoldeb rhieni a rennir.

1.20 Os yw unigolyn sydd wedi cofrestru yn cymryd hoe o lai na 12 mis, nid ydynt mewn gwirionedd ond yn oedi taliad y flwyddyn nesaf. Mae'n debygol felly y bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n cymryd cyfnod mamolaeth ac absenoldebau statudol eraill yn parhau â'u cofrestriad ac yn adnewyddu yn ôl eu trefn wreiddiol. Os yw pobl wedi cofrestru yn gwneud cais i atal eu cofrestriad yn wirfoddol, nid oes rhaid iddynt roi gwybod pam maen nhw eisiau gwneud hynny. Nid ydym felly'n gwybod

faint o geiswyr allai fod yn cymryd cyfnod mamolaeth neu absenoldeb statudol arall.

1.21 Gall unrhyw un wneud cais i dynnu eu hunain yn wirfoddol oddi ar y gofrestr. Mae pobl sydd wedyn yn gwneud cais i gael eu rhoi yn ôl ar y gofrestr (wedi cyfnod o fwy na mis) yn talu ffïoedd gyfwerth â'r tâl adnewyddu blynyddol. Os yw rhywun yn ail-ymuno â'r gofrestr o fewn blwyddyn, nid yw eu dyddiad adnewyddu blynyddol yn newid, ac mae eu cofnod cofrestru yn ddi-dor. Os yw rhywun yn ail-ymuno ar ôl blwyddyn, maent yn talu'r un ffïoedd, ond mae angen iddynt ddarparu portffolio o dystiolaeth eu bod yn bodloni'r meini prawf cofrestru. Rydym wedyn yn creu dyddiad adnewyddu blynyddol newydd.

1.22 Gan edrych yn ehangach ar gofrestru, mae rhai manteision o fod ar gyfnod mamolaeth neu absenoldeb statudol arall. Er enghraifft, ar gyfer ail-ddilysiad, efallai y bydd person sy'n cofrestru yn cael cyflwyno llai o gofnodion neu efallai y cânt fwy o amser i'w cyflwyno.

1.23 Byddai angen newid y rheolau er mwyn cyflwyno cynllun lle na fyddai rhai pobl sy'n cofrestru, sy'n cymryd hoe o lai na 12 mis oddi ar y gofrestr, ond yn talu ffïoedd am ran o'r flwyddyn. Gallai arwain hefyd, er enghraifft, at bobl yn gadael y gofrestr am resymau eraill, megis ymddeol neu symud y tu allan i Brydain, yn disgwyl talu llai o ffïoedd. Mae wedyn yn mynd yn gymhleth amcangyfrif faint o bobl allai gael eu heffeithio, a'r costau i'r CFfC mewn ffioedd heb eu talu neu'n cael eu had-dalu Byddai'n rhaid talu am y costau mewn rhyw ffordd arall, megis codi'r ffïoedd i bawb arall sy'n cofrestru.

1.24 Mae'n bwysig cofio hefyd nad yw gwaith rheoleiddiol yn cael ei wasgaru'n gyfartal trwy gydol cyfnod o ddeuddeg mis. Ar gyfer unigolion, mae'r rhan fwyaf o gostau rheoleiddiol yn digwydd adeg cofrestru ac adnewyddu, neu o gamau a gymerir os nad yw unigolyn wedi cofrestru yn cyflawni'r safonau a ddisgwylir gan weithwyr fferyllol proffesiynol. Os yw person yn penderfynu cymryd cyfnod mamolaeth neu absenoldeb rhieni am, dyweder, chwe mis, ac yn atal eu cofrestriad, ni fydd cost gwaith rheoleiddiol ond ychydig yn llai nac y mae ar gyfer rhywun sydd ar y gofrestr yn ddi-dor.

Pobl sy'n cofrestru sydd newydd gymhwyso

1.25 Yn ogystal â rhoi gostyngiadau i bobl ar incymau isel, mae'r GMC hefyd yn gostwng ffïoedd i feddygon yn eu blynyddoedd sylfaen. Yn yr un modd, mae Cyngor y Proffesiynau Iechyd & Gofal (HCPC) yn rhoi gostyngiad o 50% i bobl sy'n cofrestru yn y ddwy flynedd yn union wedi iddynt gymhwyso.

1.26 Cynigiwyd y dylai pobl newydd gymhwyso sy'n cofrestru â'r CFfC gael gostyngiad yn eu ffïoedd yn eu blwyddyn gyntaf ar ôl cofrestru.

1.27 Pe baem yn rhoi gostyngiad o 50% i bob fferyllydd a thechnegydd fferyllol sy'n cofrestru am y tro cyntaf byddai hyn yn costio tua £0.6m y flwyddyn. Byddai angen unioni hynny trwy godi ffïoedd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol eraill. Mae cost yr asesiad cofrestru eisoes yn elwa o

gymhorthdal o ffïoedd unigolion sy'n cofrestru er mwyn ceisio cryfhau'r gweithlu.

1.28 Mantais gweithwyr fferyllol proffesiynol newydd gymhwyso yn talu ffioedd gwahaniaethol yw na fyddai unrhyw angen am hunan-ddatganiad ac archwiliad. Byddai'r wybodaeth angenrheidiol gennym yn barod. Fodd bynnag, mae gan y proffesiwn fferyllol strwythur cymharol 'wastad' a lefelau cymharol uchel o hunangyflogaeth a pherchnogaeth busnesau. Felly, nid yw'n dilyn fod yna berthynas glir rhwng potensial enillion a hanes gweithiol.

1.29 Pe bai ffioedd gwahaniaethol yn cael eu cytuno ar gyfer pobl sydd newydd gymhwyso, byddai hynny'n berthnasol hefyd i bobl fyddai'n ymuno â'r gofrestr o'r tu allan i'r DG. Mae'r unigolion yn fwy tebygol o fod wedi arfer am fwy na dwy flynedd, ond ar sail triniaeth gyfartal byddai'n anodd eu heithrio.

Pobl sydd wedi cofrestru a fu drwy brosesau ffitrwydd i arfer

1.30 Galwodd rhai ymatebwyr i ymgynghoriadau ffïoedd blaenorol am ffïoedd uwch ar gyfer pobl wedi cofrestru a fu trwy broses ffitrwydd i arfer (FfiA). Pwrpas proses FfiA yw sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd yn derbyn gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol. Mae pob gweithiwr fferyllol proffesiynol yn elwa o'r broses ffitrwydd i arfer gan ei bod yn rhoi sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd fod y sector fferyllol yn cael ei reoleiddio'n effeithiol ac y byddant yn derbyn gofal diogel. Er nad ydym yn cynnig ffïoedd uwch ar gyfer pobl wedi cofrestru sy'n mynd trwy FfiA, mae'n rhywbeth y byddwn yn cadw golwg arno.

Casgliad

1.31 Byddai cyflwyno ffioedd gwahaniaethol ar gyfer rhai grwpiau yn cyflwyno cymhlethdod i'r strwythur ffïoedd. Byddai hefyd yn creu amheuaeth ac ansicrwydd o ran y canlyniad wrth bennu lefel y ffi ar gyfer pobl nad ydynt yn gymwys i dalu ffioedd gwahaniaethol. Felly, mae'r CFfC yn bwriadu cadw'r strwythur ffi safonol ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol. Mae'r strwythur hwn yn seiliedig ar gost rheoleiddio ar gyfer pob grŵp ac nid ar incwm neu amgylchiadau eraill unigolion sy'n cofrestru.

Rydym yn bwriadu cadw strwythur ffi safonol, yn hytrach na chyflwyno ffioedd gwahaniaethol, ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol cofrestredig.

Golyga hynny y bydd pob fferyllydd yn talu'r un ffi â'i gilydd, ac y bydd pob technegydd fferyllol yn talu'r un ffi â'i gilydd. Yn adrannau 1.1 i 1.31 (uchod), buom yn edrych ar ffioedd gwahaniaethol ar gyfer pobl yn gweithio'n rhan-amser, ar incymau isel neu ar absenoldeb rhieni, ac ar gyfer unigolion oedd newydd gymhwyso.

Sylweddolwn y byddai ffioedd gwahaniaethol yn cynnig manteision i rai pobl sy'n cofrestru, ond ein barn ni yw eu bod yn cael eu gwrthbwyso gan y costau y byddai ffioedd gwahaniaethol yn eu hychwanegu i'r rhan fwyaf o bobl sy'n cofrestru. Dangosodd ein dadansoddiad y byddai angen cryn dipyn yn fwy o amser ac adnoddau er mwyn cyflwyno ffioedd gwahaniaethol. Byddai hynny'n cynyddu costau rheoleiddio, ac yn codi ffïoedd ar gyfer y rhan fwyaf o bobl sy'n cofrestru.

C1 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n rhesymau dros gadw'r strwythur ffi safonol ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol?

C2 Os ydych yn anghytuno, dewiswch pa grŵp/grwpiau ddylai gael ffioedd gwahaniaethol yn eich barn chi, o blith y canlynol: pobl yn gweithio'n rhan-amser, ar incymau isel, ar absenoldeb rhieni,

Rhan 2: Cyflwyno cylch ffioedd sawl-blwyddyn

2.1 Yn dilyn ein hymgynghoriad diwethaf dywedasom y byddem yn cyflwyno'r cynnig i bennu ffïoedd trwy gylch sawl-blwyddyn. Mae'r adran hon yn esbonio ein hymresymu ar hyn.

2.2 Y cynnig yw y byddai ffïoedd ar gyfer unigolion yn cofrestru yn cael eu pennu am sawl blwyddyn, ac y cynhelir ymgynghoriad cyn gweithredu pob cylch sawl-blwyddyn newydd.[1]

2.3 Er mwyn i gylch ffïoedd sawl-blwyddyn fod yn gydnaws â rheolau ffïoedd y CFfC, mae'n rhaid inni ymgynghori ar ffigyrau sefydlog a hysbys. Golyga hynny na allwn fodloni ar gysylltu ffïoedd â chwyddiant.

2.4 Felly, byddai'n rhaid inni ddefnyddio trefn wahanol. Byddai ffïoedd arfaethedig yn seiliedig ar gostau disgwyliedig rheoleiddio ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol dros gyfnod penodedig. Byddai hynny'n creu'r fantais o gysylltu ffïoedd yn uniongyrchol gyda'r gweithgareddau sy'n rhan o gyflawni'r cynllun strategol dros yr un cyfnod o amser. Mae'r prif ddadleuon o blaid y cynnig hwn i'w gweld isod.

Ystyriaethau

2.5 Byddai pennu cylch ffïoedd sawl-blwyddyn yn caniatáu gwell blaen gynllunio ariannol inni ac ar gyfer y sawl sy'n cofrestru. Byddai'n cynnig mwy o sicrwydd dros gyfnod hirach nac a ddigwyddodd yn y gorffennol.

2.6 Bob tro y newidiwn y rheolau ar ffïoedd mae'n rhaid inni ymgynghori. Byddai pennu ffïoedd ar gylch sawl-blwyddyn, yn hytrach na chylch blynyddol, yn lleihau costau ymgynghori. Felly, er enghraifft, pe bai'r cylch yn cael ei osod ar dair blynedd ni fyddai ond angen un ymgynghoriad bob tair blynedd yn hytrach na thri blynyddol. Byddai hyn yn ysgafnhau'r baich ar unigolion sy'n cofrestru o orfod ymateb i ymgynghoriadau.

2.7 Mae'r drefn a awgrymir yn golygu y gellid gwasgaru effaith codiadau i'r gost reoleiddio dros gyfnod o amser. Er enghraifft, mae rôl technegwyr fferyllol yn newid ac rydym yn cadw golwg ar y ffïoedd maen nhw'n eu talu. Fel grŵp, bydd ffïoedd technegwyr fferyllol yn parhau i adlewyrchu cost eu rheoleiddio, ond gellid gwasgaru unrhyw gynnydd dros gylch sawl-blwyddyn.

2.8 Hefyd, os oes rhaid inni ymateb i unrhyw wyriadau o'r sefyllfa ariannol a ragfynegwyd, gallwn wneud hynny'n fwy graddol dros y cylch sawl-blwyddyn canlynol. Pe baem yn dal i ystyried ffïoedd yn flynyddol efallai y byddai'n rhaid inni wneud hynny dros un flwyddyn yn unig.

2.9 Mae'n bwysig bod yn glir nad yw trefn cylch sawl-blwyddyn yn golygu y bydd y

[1] Bwriedir cynnal ymgynghoriad ar bennu ffïoedd ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig yn 2022.

ffïoedd ar draws yr holl grwpiau cofrestru yn cael eu codi bob blwyddyn. Byddwn yn pennu ffïoedd yn ôl y wybodaeth ariannol sydd ar gael ar y pryd. Gall hyn olygu na fyddent yn newid mewn rhai blynyddoedd.

2.10 Trwy ddefnyddio trefn o'r fath, bydd y CFfC yn pennu costau trwy ystyried effaith cynlluniau i'r dyfodol, yn hytrach na thrwy edrych yn ôl ar arian a wariwyd yn barod ar reoleiddio. Felly, er mwyn gweithredu cylch ffïoedd sawl-blwyddyn, byddai angen inni gael dealltwriaeth dda o gostau ein cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

2.11 Trwy bennu ffïoedd ar gylch tair blynedd byddwn yn cyfyngu ar ein gallu i newid ffïoedd bob blwyddyn i adlewyrchu newidiadau yn ein costau. Fodd bynnag, byddai trefniant mwy hirdymor ar gyfer ffïoedd yn ein galluogi i reoli adnoddau a lefelau gweddillion dros gyfnod hirach gyda mwy o sicrwydd.

2.12 Fodd bynnag, gall sefyllfa frys godi na allem fod wedi'i rhagweld. Os na allem dalu costau ychwanegol trwy ddefnyddio ein gweddillion ariannol, ein cam cyntaf fyddai gweld pa arbedion allem eu gwneud, tra'n parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol. Os na fyddai hynny'n ddigon, efallai y byddai angen inni wneud newidiadau 'eithriadol' i ffïoedd yn ystod cylch sawl-blwyddyn. Byddem yn gwneud ein gorau i osgoi hyn, ond efallai y byddai'n rhaid inni newid ein ffïoedd er mwyn delio â'r sefyllfa. Byddem yn cynnal ymgynghoriad, a byddai hynny'n cynnwys esboniad o'r newidiadau a pham mae eu hangen.

Rydym yn bwriadu cyflwyno cylchoedd ffïoedd sawl-blwyddyn, yn hytrach na chylchoedd ffïoedd blynyddol, ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol cofrestredig.

Golyga hynny y byddai ffïoedd ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn cael eu pennu am sawl blwyddyn yn hytrach na chael eu hadolygu bob blwyddyn. Rydym wedi esbonio ein rhesymau dros y cynnig hwn yn adrannau 2.1 i 2.12 (uchod). Credwn y bydd cylchoedd ffïoedd sawl-blwyddyn yn:

- caniatáu gwell blaen gynllunio ariannol inni a'r bobl sy'n cofrestru
- lleihau nifer yr ymgynghoriadau a gynhaliwn
- lleihau costau a'r pwysau a achosir gan gynnal ac ymateb i ymarferiad ymgynghori, a
- chaniatáu inni gyflwyno unrhyw gynnydd dros gyfnod hirach

C4 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n rhesymau dros gyflwyno cylchoedd ffïoedd sawl-blwyddyn ar gyfer unigolion sy'n cofrestru?

Rhan 3: Codi tâl am achredu ac ail-achredu, ac am gydnabod ac ail-gydnabod

3.1 Rydym wedi ymrwymo i barhau i wella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd ar draws holl feysydd gwaith y CFfC. Fel rhan o hyn, rydym yn ystyried creu ffynonellau incwm newydd. Mae ymatebwyr i ymgynghoriadau ffïoedd blaenorol wedi awgrymu y dylem godi am unrhyw waith ychwanegol a wnawn. Un maes i'w ystyried yw codi am gymeradwyo cyrsiau addysg a hyfforddiant.

3.2 Rydym yn cymeradwyo cyrsiau addysg a hyfforddiant trwy eu hachredu a'u cydnabod. Mae'r cyrsiau hyn yn arwain at:

- gofrestru yn fferyllydd neu'n dechnegydd fferyllol, neu
- anodiad yn rhagnodydd fferyllol annibynnol

Rydym hefyd yn cymeradwyo hyfforddiant ar gyfer staff cefnogi heb eu rheoleiddio yn nhîm y fferyllfa.

3.3 Mae ymweliadau achredu ac ail-achredu, neu gydnabod ac ail-gydnabod yn rhan o'r broses o gymeradwyo darparwyr addysg a hyfforddiant a chydnabod cyrsiau fferylliaeth sy'n arwain at gofrestru ac anodi. Ystyr achredu yw y cafodd yr holl brosesau ynghylch cwrs eu hadolygu at ddibenion sicrhau ansawdd, i wneud yn siwr fod y cwrs addysg neu hyfforddiant yn bodloni safonau, meini prawf achredu neu bolisïau hyfforddiant perthnasol y CFfC. Ystyr cydnabod yw cymeradwyo cymwysterau cenedlaethol a ddarperir ledled y wlad.

3.4 Ar hyn o bryd, rydym yn codi am rai gweithgareddau cymeradwyo ond nid am rai eraill (gweler Atodiad C). Yr egwyddor gyffredinol oedd bod digwyddiadau achredu a chydnabod sy'n cysylltu'n uniongyrchol â chofrestru neu anodi yn 'swyddogaeth graidd' y rheoleiddiwr, Felly, mae'r rheoleiddiwr yn ysgwyddo'r costau. Defnyddir yr egwyddor hon gan y rhan fwyaf o reoleiddwyr gofal iechyd, gan gynnwys y GMC, GDC a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Fodd bynnag, ystyr costau'n cael eu 'hysgwyddo gan y rheoleiddiwr' mewn gwirionedd yw bod costau'n cael eu talu gan y bobl a'r sefydliadau sy'n talu'r ffïoedd rheoleiddiol.

Deddfwriaeth

3.5 Gall y CFfC godi ffïoedd rhesymol am ei waith a gwaith ei bwyllgorau, fel y nodir yn y Gorchymyn Fferylliaeth, Erthygl 65:

65.— Ffïoedd Cyffredinol

(1) Yn amodol ar baragraff (2), ***gall y Cyngor godi pa ffïoedd bynnag y mae'n rhesymol yn eu pennu ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau****, neu swyddogaethau ei bwyllgorau statudol.*

(2) Ni ellir codi unrhyw ffi, o ran paragraff (1), ar gyfer cyflawni swyddogaeth pan wneir darpariaeth mewn rhan arall o'r Gorchymyn hwn ar gyfer codi ffi ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth honno.

3.6 Amlinellir un o'r swyddogaethau statudol hyn yn erthygl 4(3)(e):

4(e) ***pennu safonau a gofynion ynghylch addysg, hyfforddiant, meithrin profiad a datblygiad proffesiynol parhaus y mae angen i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol eu cyflawni er mwyn cael eu rhoi ar y Gofrestr neu i gael anodiad yn y Gofrestr a chynnal cymhwysedd***

3.7 Mae achredu ac ail-achredu yn rhan o'r swyddogaethau yn Erthygl 4(3)(e) sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant.

3.8 Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu inni godi ffi am achredu ac ail-achredu, ac am ddigwyddiadau cydnabod ac ail-gydnabod.

3.9 Dywed y ddeddfwriaeth fod rhaid inni ymgynghori ar y ffïoedd a godwn ar unigolion a fferyllfeydd sy'n cofrestru. Ond nid oes rhaid inni ymgynghori na gwneud rheolau i godi ffi resymol o dan Erthygl 65 ar gyfer achredu ac ail-achredu, ac am ddigwyddiadau cydnabod ac ail-gydnabod. Fodd bynnag, mae'n arfer da i ymgynghori os ydym yn bwriadu codi unrhyw daliadau newydd.

Y taliadau a godwn ar hyn o bryd

3.10 Ar hyn o bryd, rydym yn codi am bob cwrs achredu ac eithrio'r rhai ar gyfer rhagnodwyr annibynnol. Codwn am rai cyrsiau ail-achredu, ond nid pob un ohonynt. Nid ydym yn codi am gydnabod neu ail-gydnabod (gweler Atodiad C).

3.11 Pan fyddwn yn codi, gwnawn hynny 'am gost'. Mae costau a godir ar ddarparwyr yn talu am:

- ffïoedd ar gyfer achredu neu ail-achredu aelodau timau
- costau staff y CFfC (gan gynnwys gorbenion)
- llety, teithio a chynhaliaeth
- llogi ystafelloedd cyfarfod ac arlwyo
- costau swyddfa uniongyrchol megis llungopïo a phostio

3.12 Rydym ar fin cynnal adolygiad o sut rydym yn gwneud gwaith achredu. Cyn yr adolygiad hwnnw, rydym yn awyddus i ddeall a yw ein cynnig i godi am achredu ac ail-achredu pob cwrs hyfforddiant, am gost, yn rhesymol ac a ddylid ei ystyried. Hoffem glywed hefyd a ddylid archwilio hefyd y syniad o godi am gydnabod ac ail-gydnabod, am gost.

Ar hyn o bryd, nid ydym ond yn codi ffïoedd am rai cyrsiau a achredwn ac a ail-achredwn, neu a gydnabyddwn ac a ail-gydnabyddwn (trowch i Atodiad C). Rydym yn ail-ystyried a ddylem ehangu'r drefn o godi ffïoedd i gynnwys pob cwrs, 'ar gost'. Ystyr hynny yw y byddwn yn codi ar ddarparwyr hyfforddiant y swm mae'n gostio inni i gynnal yr achredu a'r ail-achredu, neu'r cydnabod a'r ail-gydnabod.

C6 A ydych yn credu y dylem edrych ar a ddylem godi tâl am achredu ac ail-achredu, ac ar gyfer cydnabod ac ail-gydnabod pob cwrs, 'ar gost'?

C7 Rhowch y rheswm/rhesymau dros eich ymateb i'r cwestiwn uchod.

Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad

Rhan 1: Ffioedd gwahaniaethol

Rydym yn bwriadu cadw strwythur ffi safonol, yn hytrach na chyflwyno ffioedd gwahaniaethol, ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol cofrestredig.

Golyga hynny y bydd pob fferyllydd yn talu'r un ffi â'i gilydd, ac y bydd pob technegydd fferyllol yn talu'r un ffi â'i gilydd. Yn adrannau 1.1 i 1.31 (uchod), buom yn edrych ar ffioedd gwahaniaethol ar gyfer pobl yn gweithio'n rhan-amser, ar incymau isel neu ar absenoldeb rhieni, ac ar gyfer unigolion oedd newydd gymhwyso.

Sylweddolwn y byddai ffioedd gwahaniaethol yn cynnig manteision i rai pobl sy'n cofrestru, ond ein barn ni yw eu bod yn cael eu gwrthbwyso gan y costau y byddai ffioedd gwahaniaethol yn eu hychwanegu i'r rhan fwyaf o bobl sy'n cofrestru. Dangosodd ein dadansoddiad y byddai angen cryn dipyn yn fwy o amser ac adnoddau er mwyn cyflwyno ffioedd gwahaniaethol. Byddai hynny'n cynyddu costau rheoleiddio, ac yn codi ffïoedd ar gyfer y rhan fwyaf o bobl sy'n cofrestru.

C1 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n rhesymau dros gadw'r strwythur ffi safonol ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol?

C2 Os ydych yn anghytuno, dewiswch pa grŵp/grwpiau ddylai gael ffioedd gwahaniaethol yn eich barn chi, o blith y canlynol: pobl yn gweithio'n rhan-amser, ar incymau isel, ar absenoldeb rhieni, pobl sydd newydd gofrestru, neu grwpiau eraill.

C3 Rhowch wybod inni beth yw eich barn ar ein bwriad i gadw strwythur ffi safonol.

Rhan 2: Cyflwyno cylch ffioedd sawl-blwyddyn

Rydym yn bwriadu cyflwyno cylchoedd ffïoedd sawl-blwyddyn, yn hytrach na chylchoedd ffïoedd blynyddol, ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol cofrestredig.

Golyga hynny y byddai ffïoedd ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn cael eu pennu am sawl blwyddyn yn hytrach na chael eu hadolygu bob blwyddyn. Rydym wedi esbonio ein rhesymau dros y cynnig hwn yn adrannau 2.1 i 2.12 (uchod). Credwn y bydd cylchoedd ffïoedd sawl-blwyddyn yn:

- caniatáu gwell blaen gynllunio ariannol inni a'r bobl sy'n cofrestru
- lleihau nifer yr ymgynghoriadau a gynhaliwn
- lleihau costau a'r pwysau a achosir gan gynnal ac ymateb i ymarferiad ymgynghori, a
- chaniatáu inni gyflwyno unrhyw gynnydd dros gyfnod hirach

C4 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n rhesymau dros gyflwyno cylchoedd ffïoedd sawl-blwyddyn ar gyfer unigolion sy'n cofrestru?

C5 A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig hwn?

Rhan 3: Codi tâl am achredu ac ail-achredu, ac am gydnabod ac ail-gydnabod

Ar hyn o bryd, nid ydym ond yn codi ffïoedd am rai cyrsiau a achredwn ac a ail-achredwn, neu a gydnabyddwn ac a ail-gydnabyddwn (trowch i Atodiad C). Rydym yn ail-ystyried a ddylem ehangu'r drefn o godi ffïoedd i gynnwys pob cwrs, 'am gost'. Ystyr hynny yw y byddwn yn codi ar ddarparwyr hyfforddiant y swm mae'n costio inni i gynnal yr achredu a'r ail-achredu, neu'r cydnabod a'r ail-gydnabod.

C6 A ydych yn credu y dylem edrych ar a ddylem godi tâl am achredu ac ail-achredu, ac ar gyfer cydnabod ac ail-gydnabod pob cwrs, 'am gost'?

C7 Rhowch y rheswm/rhesymau dros eich ymateb i'r cwestiwn uchod.

Cwestiynau cydraddoldeb ac effaith

Rydym eisiau deall a allai ein cynigion gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Y nodweddion gwarchodedig yw:

- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil/ethnigrwydd
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

C8 **Ydych chi'n credu y caiff ein cynigion effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig?**

Rydym eisiau gwybod hefyd a fydd ein cynigion yn cael effaith ar unigolion neu grwpiau eraill (heb fod yn gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig) - yn benodol felly, cleifion a'r cyhoedd, perchnogion fferyllfeydd, staff fferyllfeydd neu ddarparwyr addysg a hyfforddiant.

C9 Ydych chi'n credu y caiff ein cynigion effaith gadarnhaol neu negyddol ar unrhyw un o'r grwpiau canlynol?

- **Cleifion a'r cyhoedd**
- **Perchnogion fferyllfeydd**
- **Staff fferyllfeydd**
- **Darparwyr addysg a hyfforddiant**

C10 Rhowch sylwadau yn esbonio eich atebion i'r ddau gwestiwn effaith uchod. Disgrifiwch yr unigolion neu grwpiau dan sylw a'r effaith yr ydych yn credu y byddai ein cynigion yn ei chael.

Atodiad B: Polisi ffioedd y CFfC

1. Rhaid i'r ffïoedd a bennwn dalu costau cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol a sicrhau cydnerthedd ariannol y sefydliad fel y gallwn barhau i gynnal safonau fferyllol.
2. Byddwn yn dyrannu refeniw incwm a gynhyrchir o ffïoedd mewn ffordd sy'n ein galluogi i gyflawni ein pwrpas statudol a'n swyddogaethau rheoleiddiol, gan osgoi sefyllfa lle y mae safonau, canllawiau a rheoliadau yn gallu mynd yn gymhleth, aneglur, dryslyd neu wrthddywediadol.
3. Byddwn yn pennu ffïoedd ar gyfer grwpiau cofrestru gwahanol mewn ffordd sy'n ystyried nifer o ffactorau gwahanol gan gynnwys: costau rheoleiddio; ffactorau risg cymharol pan yn hysbys; a ffïoedd cymharol ar gyfer grwpiau proffesiynol eraill a reoleiddir. Rydym wedi ymrwymo i ystyried y ffactorau hyn, ond cydnabyddwn, o gofio cymhlethdod y materion hyn, nad oes fformiwla 'berffaith' ar gyfer gwneud penderfyniadau.
4. Byddwn yn cydbwyso'r ffactorau uchod gyda'r angen i leihau cymhlethdod yn ein strwythur ffïoedd, all gynyddu costau yn gyffredinol.
5. Byddwn yn sicrhau yr ystyriwn ffactorau allanol, gan gynnwys ffactorau economaidd, wrth bennu ffïoedd, ochr yn ochr â'r angen i gyflawni ein swyddogaethau statudol yn effeithiol..
6. Byddwn yn adolygu'r egwyddorion hyn yn achlysurol ac yn gofalu ein bod yn esbonio'n glir unrhyw newid arwyddocaol mewn ffactorau sydd naill ai'n caniatáu inni, neu'n ein gorfodi, i leihau neu godi ffïoedd yn y dyfodol.
7. Byddwn yn ceisio'n gyson i ddod o hyd i arbedion yn ein gwaith rheoleiddiol ac yn esbonio'r rhain wrth ymgynghori ar ffïoedd.
8. Byddwn yn ceisio, trwy gynllunio effeithiol ac ystyried ffactorau economaidd allanol, osgoi amrywiaethau mawr mewn ffïoedd, i fyny neu i lawr, i'r dyfodol.

Atodiad C: Cyrsiau y codir tâl amdanynt ar gyfer achredu ac ail-achredu

Codir tâl 'am gost'.

Tabl 1:Cyrsiau y codir tâl amdanynt ar gyfer achredu ac ail-achredu

Cwrs	Math o gymeradwyaeth	Cyfnod cymeradwyo	Codwyd tâl ar y darparydd?
Cefnogi cyrsiau staff	Cydnabyddiaeth*	Cydnabyddiaeth gychwynnol	x
		Ail-gydnabyddiaeth	x
	Achrediad	Achrediad cychwynnol	✓
		Ail-achrediad	✓
Cymhwyster/cyrsiau technegydd fferyllol	Cydnabyddiaeth*	Cydnabyddiaeth gychwynnol	x
		Ail-gydnabyddiaeth	x
	Achrediad	Achrediad cychwynnol	✓
		Ail-achrediad	✓
Gradd Meistr mewn Fferylliaeth (MPharm)	Achrediad	Achrediad cychwynnol (camau 1–7)	✓
		Ail-achrediad (gan gynnwys digwyddiadau interim)	x
Gradd Meistr mewn Fferylliaeth wedi'i haddysgu dramor yn rhannol (MPharm 2+2)	Achrediad	Achrediad cychwynnol (camau 1–3)	✓
		Ail-achrediad (law yn llaw ag MPharm y DG)	x
Gradd Sylfaen Fferylliaeth	Achrediad	Achrediad cychwynnol	✓
		Ail-achrediad (law yn llaw ag MPharm y DG)	x
	Achrediad	Achrediad	✓

Cwrs	Math o gymeradwyaeth	Cyfnod cymeradwyo	Codwyd tâl ar y darparydd?
Rhaglen Asesu Fferyllwyr Tramor (OSPAP)		Ail-achrediad	✓

Cwrs	Math o gymeradwyaeth	Cyfnod cymeradwyo	Codwyd tâl ar y darparydd?
Rhagnodi annibynnol	Achrediad	Achrediad (gan gynnwys digwyddiadau monitro)	x
		Ail-achrediad	x

*Mae **Cydnabyddiaeth** yn ymwneud â chymeradwyo cymwysterau cenedlaethol a ddarperir drwy'r wlad. Mae'r cyrsiau hyn yn seiliedig ar y fframwaith credydau ansawdd a safonau galwedigaethol cenedlaethol cytunedig. Rydym yn cydnabod gwarantu ansawdd y cyrff dyfarnu hyn ac nid ydym yn achredu'r darparwyr penodol yn uniongyrchol.

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

@TheCFFC
TheCFFC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org